| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Hydref 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Addysg /Pennaeth Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Effeithlonrwydd Perfformiad Ysgolion - Uwchradd** |
| **Teitl:** | **Arholiadau Allanol Dros Dro ac Asesiadau Athrawon** |

---

## 1. Am beth y mae'r adroddiad yn sôn?

Perfformiad ysgolion ym mhob cyfnod allweddol a chanlyniadau arholiadau allanol dros dro Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Caiff dadansoddiad manwl o'r canlyniadau ei roi i aelodau'r pwyllgor pan ddaw gwybodaeth sydd wedi'i dilysu a'i meincnodi ar gael ym mis Rhagfyr ar gyfer CA4 a CA5.

## 2. Beth yw'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybodaeth am berfformiad asesiadau athrawon ac arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau yn adolygu perfformiad yr ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn gwneud sylwadau yn unol â hynny.

### 1. Asesiadau Athrawon a ddilyswyd o'r Cyfnod Sylfaen i CA3

### 2. Cyfnod Sylfaen

Yn achos Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS), mae perfformiad 2014 wedi cynyddu i 86.1% o'i gymharu â 84.9% yn 2013. Er gwaethaf y cynnydd o 1.2% mae Sir Ddinbych wedi gostwng o'r 8$^{fed}$ safle yn 2013 i'r 9$^{fed}$ yng Nghymru. Fodd bynnag, ac eithrio Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu a ostyngodd o 0.5% ac o'r 6ed i'r 14eg safle, roedd pob mesur yn y 10 uchaf yng Nghymru. O ran canran y disgyblion a lwyddodd i ennill y DCS, dyma'r 3$^{edd}$ flwyddyn o welliant yn olynol.

### 3. Cam Allweddol 2

Mae pob mesur yn perfformio yn y 10 uchaf, ac eithrio Cymraeg sydd wedi gostwng o'r 14eg safle (88%) yn 2013 i'r 18fed (85.1%) yn 2014, gwahaniaeth

o -2.9%. Y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yw nifer y disgyblion a enillodd Lefel 4 yn Saesneg/Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y DPC ar ddiwedd CA1 wedi cynyddu am y 5$^{ed}$ blwyddyn yn olynol. Fodd bynnag, rhwng 2013 (86.0%) a 2014 (86.6%) cafwyd gostyngiad yn y gyfradd hon ac fe wnaethom ddisgyn o'r 9$^{fed}$ safle i'r 10$^{fed}$ yng Nghymru.

Er bod perfformiad ym Mathemateg wedi cynyddu o 89.1% i 89.5% cafwyd gostyngiad o'r 5ed safle i'r 9fed. Gostyngodd perfformiad Gwyddoniaeth o 92.3% yn 2013 i 90.9% yn 2014 ac o'r 5$^{ed}$ i'r 10$^{fed}$ safle yng Nghymru. O ran y meysydd ymyrryd, byddwn yn canolbwyntio ein sylw ar Cymraeg eleni.

## 4. Cam Allweddol 3

Gwelwyd gwelliant sylweddol ym mherfformiad 2014 o'i gymharu â 2013: roedd yr holl fesurau yn y 10 uchaf ac yn rhagori ar ganrannau 2013. Mae Cymraeg Ail Iaith wedi codi i'r 2$^{il}$ (82.4%) safle yng Nghymru o'r 16eg (72.6%), cynnydd o ymron i 10% er 2013. Gwelwyd cynnydd o 8.2% yn y DPC gan godi o'r 15$^{fed}$ (75%) i'r 10$^{fed}$ (83.2%) safle.

Hefyd gwelwyd cynnydd sylweddol yn Saesneg (88.5%), Cymraeg (91.1%), mathemateg (88.8%) a gwyddoniaeth (93.5%) o'u cymharu â 2013, cafwyd cynnydd hefyd yn 2014 yn nifer y disgyblion a gyrhaeddodd Lefelau uwch 6 a 7 yn yr holl bynciau craidd.

## 5. Canlyniadau arholiadau allanol nas dilyswyd

### Lefel 2/TGAU

Mae Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Saesneg/ Cymraeg a mathemateg wedi codi o 53.23% yn 2013 i 55.4% yn 2014. Mae hyn yn gosod yr Awdurdod Lleol yn y trydydd safle yng Ngogledd Cymru y tu ôl i Gwynedd a Sir y Fflint ac mae'n debygol y byddwn yn y 10 uchaf yng Nghymru ac yn uwch na'n safle meincnodedig, yn amodol ar ddilysu'r canlyniadau.
.
Cafwyd gwelliant yn nhrothwyon Lefelau 1 a 2 am y seithfed flwyddyn yn olynol. Gwelwyd cynnydd dros dro yn Nhrothwy Lefel 2 (5 *A-C neu gymhwyster cyfwerth) o 84.4% yn 2013 i 88.6% yn 2014. Mae hyn yn debyg o osod Sir Ddinbych yn y tri uchaf yng Nghymru eleni. Cafwyd cynnydd yn Nhrothwy Lefel 1 o 93.7% yn 2013 i 95.0% yn 2014.

Yn genedlaethol, gostyngodd nifer y disgyblion a oedd yn llwyddo yn Saesneg i 58.0% (-1.6%) a gwelwyd Mathemateg hefyd yn gostwng i 50.6% (-2.2%). Cafwyd gostyngiad yn Saesneg yn Sir Ddinbych hefyd, o 64.2% yn 2013 i 62.9% (-1.45) a gostyngodd mathemateg o 61.48% yn 2013 i 59.9% yn 2014 (-1.58). Yn Sir Ddinbych roedd graddfa'r gostyngiad yn llai na'r cyfartaledd yng Nghymru. Cafwyd cynnydd yn y canlyniadau Cymraeg Iaith Gyntaf o 69.69% yn 2013 i 72.7% yn 2014. Yn genedlaethol, cafwyd cynnydd o 1.1% yn Cymraeg yn 2014, ac yn Sir Ddinbych cafwyd cynnydd o 3.10% yn 2014.

O ran perfformiad Trothwy Lefel 2, cafwyd cynnydd ym mhob ysgol uwchradd, yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, ac eithrio Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Uwchradd Y Rhyl. Gwelwyd y gwelliant mwyaf yn Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Santes Ffraid, lle gwelwyd cynnydd o dros 7%.

Llwyddodd disgyblion y ddwy ysgol arbennig i ennill eu graddau disgwyliedig yn ystod yr haf. Llwyddodd 7.1% o ddisgyblion Ysgol Plas Brondyffryn i ennill graddau A*-C a llwyddodd 21.4% i ennill graddau A*-G mewn mathemateg. Hefyd, llwyddodd 28% i ennill graddau A*-G yn gwyddoniaeth. Llwyddodd mwyafrif disgyblion Ysgol Plas Brondyffryn ac Ysgol Tir Morfa i ennill o leiaf un cymhwyster galwedigaethol.

Cafwyd gwelliant sylweddol ym mherfformiad Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) mewn arholiadau o'i gymharu â 2013. Llwyddodd yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal, namyn un, i ennill o leiaf un cymhwyster Lefel 1 ac fe lwyddodd un disgybl i ennill 10 TGAU graddau A*-C yn cynnwys un A*. Ac eithrio un disgybl, llwyddodd yr holl ddisgyblion i ennill o leiaf un TGAU gradd Lefel 1 yn Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Hefyd, llwyddodd mwyafrif y Plant sy'n Derbyn Gofal i ennill nifer o gymwysterau galwedigaethol Lefel 2. Mae un disgybl yn y chweched dosbarth yn dilyn cyrsiau Safon Uwch (Lefel A) ac mae gweddill y Plant sy'n Derbyn Gofal yn y coleg yn dilyn cyrsiau galwedigaethol.

Mae holl ganlyniadau cyfnod allweddol 4 yn rhai dros dro, bydd canlyniadau wedi'u dilysu ar gael o fis Tachwedd a bydd data a feincnodwyd ar gael ym mis Rhagfyr.

## 6. Canlyniadau trothwy Lefel 3 (Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol cyfwerth)

Y dangosydd perfformiad ar gyfer ôl-16 yw Trothwy Lefel 3 sydd gyfwerth â 2 Safon Uwch neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth. Mae canran yr ymgeiswyr a lwyddodd i gyrraedd Trothwy Lefel 3 wedi cynyddu o 98% yn 2013 i 99% yn 2014.

Yn ogystal â'r canlyniadau Safon Uwch, enillodd 99.4% o ddisgyblion Ddiploma Uwch Bagloriaeth Cymru yn 2014, sef cynnydd o 5% er 2013.

Mae perfformiad myfyrwyr 6$^{ed}$ dosbarth Y Rhyl wedi gwella eleni, cyflawnodd 91% o fyfyrwyr Drothwy Lefel 3 a llwyddodd 95% i ennill Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru. Nid yw canlyniadau 6$^{ed}$ dosbarth Y Rhyl wedi'u cynnwys yng nghyfartaleddau'r awdurdod lleol.

## 7. Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Am yr ail flwyddyn yn olynol fe wnaeth yr holl ddysgwyr cymwys mewn ysgolion sefyll y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr Blynyddoedd 2 i 9 (7 -13 oed). Eleni, roedd yn ofynnol i'r dysgwyr sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol ac elfen weithdrefnol y Prawf Rhifedd Cenedlaethol.

Yn achos y prawf darllen Saesneg yn 2014, llwyddodd Sir Ddinbych i gael sgôr o 82.7% sydd yn is na chyfartaledd Cymru, sef 83.2%, gan roi'r awdurdod lleol yn y 14eg safle yng Nghymru. Mae'r canlyniadau wedi gostwng er 2013 pan sgoriwyd 85.9% ac roedd Sir Ddinbych yn yr 11eg safle yng Nghymru.

Mae'r Awdurdod Lleol yn y 3ydd safle yng Nghymru o ran y prawf darllen Cymraeg gyda sgôr o 87.4% sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 84.4%. Fodd bynnag, mae'r ganran wedi gostwng er 2013 (93.4%) pan ddaeth Sir Ddinbych yn y 6$^{ed}$ safle yng Nghymru.

Yn y Prawf Rhifedd Gweithdrefnol Cenedlaethol mae'r Awdurdod Lleol yn y 15$^{fed}$ safle â chanran o 81.9%, sydd yn is na chyfartaledd Cymru sef 82.8%. Yn 2013 llwyddodd yr ysgolion i gael sgôr o 85.4% ac roedd yr Awdurdod Lleol yn yr 8$^{fed}$ safle yng Nghymru. Yn y prawf Rhifedd Rhesymu newydd llwyddodd yr ysgolion i sgorio 82.5% sydd yn is na chyfartaledd Cymru sef 82.2% gan osod yr ysgolion yn y 15$^{fed}$ safle yng Nghymru. Ni chafodd y prawf hwn ei osod yn 2013.

**8. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae moderneiddio'r gwasanaeth addysg er mwyn cyrraedd lefel uchel o ran perfformiad ar draws y sir yn un o'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae codi lefelau cyrhaeddiad ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig cyfnod allweddol 4, yn amcan allweddol.

**9. Faint y bydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

*Amherthnasol*

**10. Beth yw prif ganlyniadau yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ynglŷn â'r penderfyniad? Dylid cynnwys templad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.**

Dengys y rhagolygon cynnar fod bechgyn a merched wedi perfformio yn well na'r cyfartaledd yng Nghymru ym mhob cyfnod allweddol ac yn Nhrothwy Lefel 2 yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg. Ar hyn o bryd nid yw canlyniadau'r profion darllen a rhifedd wedi'u dadansoddi ar sail rhyw a Phrydau Ysgol am Ddim.

**11. Pa ymgynghori a gafwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

*Amherthnasol*

**12. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

*Amherthnasol*

**13. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros dangyflawni a thargedu cymorth i ysgolion sy'n tangyflawni ar gael gan yr Awdurdod Lleol a GwE. Mae'r drefn o ddosbarthu ysgolion yn sicrhau bod ysgolion sy'n tangyflawni ac ysgolion risg uchel yn derbyn cymorth ychwanegol ac yn cael eu monitro'n rheolaidd.

Caiff rhaglen ranbarthol newydd i gryfhau'r broses o gymedroli Asesiadau Athrawon ei chyflwyno yn 2015. Dylai hyn sicrhau cysondeb a chydraddoldeb o ran Asesiadau Athrawon ar draws Gogledd Cymru.

Mae ansicrwydd yn parhau ynglŷn â pharhad Grant Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllid 'Potensial' Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar ôl 2014, sydd wedi cefnogi gwelliannau yn llwyddiannus yng Nghyfnod Allweddol 4.

## 14. Hawl i gymryd y Penderfyniad

Mae hawliau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag adolygu perfformiad ac amcanion polisi wedi'u hamlinellu yn Erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Addysg Arweiniol – Uwchradd
Rhif ffôn:  01824 708027